ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Ffrwd waith: Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

2015 – 2016

- A ydy'r disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn dangos cynnydd cyflymach i gulhau'r bwlch ar bob lefel rhyngddyn nhw a'r disgyblion nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim?
- A oes gennym Broffil Asesu Pobl Agored i Niwed cyffredin ar draws y rhanbarth?
- A ydy arfer da ar bontio ym mhob cyfnod wedi'i nodi a'i amlygu? Mae'r dysgwyr yn gwneud dewisiadau gwybodus sy'n codi uchelgais mewn teulu.
- A oes gennym becyn cymorth data cyffredin sy'n adnabod ysgolion llwyddiannus wrth leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad?
- A ydym wedi llehiau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen 15% erbyn diwedd 2016?
- A ydy'r gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim ar draws rhanbarth ERW yn well na chyfartaledd Cymru?
- A ydy'r rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Ysgol yn ystyried yn llawn y dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion ac yn cyfrif amdano'n dda?

2016 – 2017

- A ydy ysgolion yn chwarae rhan ganolog mewn cydlynu a chynllunio ymyriadau cynnar yn y teulu, ac yn y gymuned, ac yn gweithio'n dda gyda phob asiantaeth?
- A ydy'r holl ysgolion yn hunanarfarnu, yn cynllunio ac yn cyflenwi'r cwricwlwm priodol i bob dysgwr, a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau i'r rheini sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim?
- A ydym wedi lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen 10% erbyn 2017?
- Codi cyrhaeddiad gan rai 15 oed sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim o ran Trothwy Lefel 2 gan gynnwys C/S a Mathemateg i fwy na 35% erbyn 2017.
- A ydy pob Cynllun Datblygu Ysgol yn ystyried yn llawn y dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion ac yn cyfrif amdano'n dda?

2017 – 2018

- A ydy dysgwyr o gefndiroedd amddifadus neu anrhefnus yn elwa ar y lefelau uchaf o addysgu a dysgu, ac a ydy hyn yn effeithio ar eu canlyniadau?
- A ydy ein hysgolion llwyddiannus, sydd ag arweinyddiaeth weithgar ac effeithiol ac sy'n defnyddio staff yn briodol ac yn effeithiol i fynd i'r afael â thlodi, yn rhannu'r arbenigedd hwn yn dda gydag eraill?
- Codi cyrhaeddiad gan rai 15 oed sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim o ran y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys C/S a Mathemateg i 40% erbyn 2016.
- A ydy'r defnydd gwell, pendant o'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cyflymu effaith ymyriadau ar ganlyniadau?